CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 15 GORFFENNAF 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, H Edwards, W T Owen, I C Thomas, A W Bohana, M Thomas, G Thomas, E Hughes, T Thomas, K Williams

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng A Hopcyn, Cyng E Lovgreen, Cyng W L Davies, Cyng C Williams, Cyng H W Roberts, Cyng A Kirk

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

- Noson gwobrwyo pêl-droed genethod Caernarfon
- Noson llyfr y flwyddyn yn Galeri
- Sul Y Maer Bangor

Falch o nodi bod Y Cynghorydd W L Davies yn gwella ,ond gyda thristwch yn nodi bod un o Cyn Feiri y Dref sef Mr Ron Kirk yn bur wael ac yn dymuno gwellhad buan iddo

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng W T Owen – Cynllunio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Llythyr yn hysbysebu Cynghorwyr o ddigwyddiad coffau 100 mlynedd y Rhyfel ar Dydd Sul Awst 3ydd

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 1 Gorffennaf 2014
ii. Panel Cyllid a Staff 4 Gorffennaf 2014

Cafwyd eglurhad nad oedd unrhyw argymhelliad i roi gerbron gan nad oedd y pwyllgor wedi pleidleisio ar unrhyw elfen o'r sgwrs cyn i rhai orfod adael ac felly ddim efo cworwm i barhau

Penderfynwyd

i. derbyn fel rhai cywir
ii. ail drefnu'r cyfarfod dros yr haf

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0590/14/LL Cytuno

Creu 2 fflat hunan gynhaliol
Ynghyd a lleoli dihangfa dan ar y talcen/

Min y Nant Stores, Ffordd Llanberis Caernarfon

****

2. C14/0602/14/HD Cytuno

Dymchwel 2 fodurdy segur

Modurdai ger/Garages by Cae Mur,
Maesincla, Caernarfon

****

3. C14/0498/20.LL Cytuno gan erfyn fod yr elfen weledol i'w ystyried

Gosod paneli solar pv ar gyfer parc Solar ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys strwythurau a ffens

Parciau Farm, Griffiths Crossing, Caernarfon

Cynllun diwygiedig 30-06-14
Amended Plans 30-06-14

****

4. C14/0587/14/LL Cytuno
Estyniadau

Dolawen, Penygarth, Caernarfon

****

Ceisiadau Cynllunio Ychwanegol/Additional Planning Applications

5. C14/0588/14/LL
Dymchwel lolfa haul bresennol a chodi estyniad newydd ynghyd a balconi yn ei le Cytuno

40 Llys Gwyn Caernarfon

****

6. C14/0612/14/LL Cytuno
Codi strwythur newydd wydr ar gyfer mynediad i'r Castell

Castell Caernarfon, Pen Deitsh,Caernarfon

(oedd Cyng W T Owen allan ar gyfer yr eitemau i gyd)

7. Cyfrifon

I **gy**meradwyo y biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd
Ail ysgrifennu i Cyngor Gwynedd i geisio cael ateb parthed arwydd Rhosbodrual ac ychwanegu gofyn wrth yr adran priffyrdd yn y ddogfen weithredol parthed Lon Maesincla

9. Adroddiad gan Ceg

Pâr: Miwsig ar y Maes a Gŵyl Pasg
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10. Dydd Gŵyl Dewi

Clerc yn nodi mai pwrpas yr eitem oedd i sicrhau dymuniad y Cyngor o drefnu gorymdaith tebyg yn 2015 a gofyn am ganiatâd i agor trafodaethau efo'r Heddlu parthed opsiynau ar gyfer newid llwybr yr orymdaith

Penderfynwyd

Unfrydol i cynnal digwyddiad eto a hawl i'r clerc gychwyn trafodaethau efo'r heddlu a swyddogion priodol Cyngor Gwynedd

11. Ymateb i'r pwyllgor ymgynghorol

Penderfynwyd

Cefnogi awgrymiadau'r pwyllgor

12. Ymateb Audit gan Hacker Young

Nodwyd bod angen danfon mantolen banc yn nol ac ail lofnodi'r ffurflen

Penderfynwyd

Derbyn a diolch i'r clerc a swyddogion am eu gwaith amserol

13. Llythyr National Grid

Taflen ar y bwrdd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. Rhybudd o Gynnig Cyng. Hywel Roberts

Penderfynwyd

Methu trafod oherwydd absenoldeb y Cynghorydd – symud i Gyngor Medi

15.**Cwestiynau**

Pam bod eitem Cymdeithas yr Iaith sydd yn y cynnwys ddim ar y rhaglen eu hun? Camgymeriad felly symud i Cyngor Medi

(Atal y wasg a'r cyhoedd gan mai trafod tendrau)
Eitem Eithriedig

16. Tendrau ar gyfer y wefan

Penderfynwyd
Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym Mis Medi i ofyn wrth 3 cwmni roi cyflwyniad ac yna penodi . Danfon llythyr iddynt efo hanner awr o slot bob un ac hefyd llythyr i un gwmni yn nodi eu bod nhw yn aflwyddiannus y tro hwn.

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.00

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....